| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **Dyddiad** | 13 Ionawr, 2022 |
| **Teitl** | Torri Gwair a Chynnal Tiroedd |
| **Aelod Cabinet** | Y Cynghorydd Catrin Wager |
| **Awdur** | Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| **Pwrpas** | Adolygiad o drefniadau cynnal ymylon ffyrdd Sirol |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Prif bwrpas ymylon ffyrdd yw sicrhau gwelededd clir ar gyfer traffig yn ogystal â darparu lleoedd diogel i gerddwyr mewn ardaloedd lle nad oes troedffyrdd. O ganlyniad, mae'n rhaid rheoli ymylon i ddiogelu holl ddefnyddwyr y ffordd.

1.2 Mae ymylon hefyd yn gynefinoedd pwysig ar gyfer bioamrywiaeth - er budd rhywogaethau fel gwenyn a pheillwyr eraill; ar gyfer blodau a bywyd gwyllt arall sy'n diflannu'n gyflym yng nghefn gwlad, ac fel coridorau bywyd gwyllt hanfodol sy'n cysylltu cynefinoedd. Ein nod yw adolygu ein trefniadau gweithio cyfredol a mynd i'r afael â'r uchod mewn modd realistig ac economaidd.

## 2. Cefndir a'r Sefyllfa Bresennol

2.1 Mae gan Gyngor Gwynedd, fel yr Awdurdod Priffyrdd, gyfrifoldeb cyfreithiol i gadw ein priffyrdd yn hygyrch ac yn ddiogel i holl ddefnyddwyr.

2.2 Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswydd i gynnal ac atgyweirio'r briffordd (o fewn rheswm) ac i gadw wyneb y ffordd yn rhydd o unrhyw beth a allai achosi rhwystr neu berygl. O dan Ran 1 - Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i 'gynnal a gwella bioamrywiaeth' lle mae hynny'n rhan o'i swyddogaethau ac, wrth wneud hynny, ceisio 'hyrwyddo gwytnwch ecosystemau'. Ategir y cyfrifoldeb hwn gan y dyletswyddau a osodir ar gyrff cyhoeddus gan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i gynnal cynaliadwyedd tymor hir.

2.3 Mae rheoli ymylon ffyrdd mewn modd ymatebol yn ein galluogi i gyfrannu'n effeithiol at 'Gynllun Gweithredu Peillwyr' Llywodraeth Cymru trwy ddarparu cynefinoedd sy'n llawn blodau gwyllt ac sy'n fwy cysylltiedig ar gyfer ardaloedd trefol a gwledig.

2.4 Mae'r cod ymarfer cenedlaethol newydd ar gyfer priffyrdd, sef 'Well-managed Highway Infrastructure: A Code of Practice' yn nodi'r argymhellion a'r arfer da ar gyfer torri ochrau priffyrdd ac yn cynghori y dylai awdurdodau ddatblygu eu safonau lleol eu hunain.

2.5 Mae Adran 41, Deddf Priffyrdd 1980, yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Priffyrdd sicrhau bod gan ddefnyddwyr ffordd lwybr diogel ar hyd y briffordd. O ran llystyfiant, mae hyn wedi'i ddehongli i olygu y dylid torri gwair a changhennau sy'n hongian dros y ffordd fel nad yw gwelededd tuag ymlaen yn cael ei amharu heb fod angen.

2.6 Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau hyn, mae angen i ni baratoi a mabwysiadu polisi torri gwair ar gyfer ymylon ffyrdd sy'n ystyried anghenion defnyddwyr y ffordd yn ogystal ag anghenion bywyd gwyllt.

## 3.0 Camau nesaf - Pa mor aml y dylid torri ymylon ffyrdd? Cyfundrefn cynnal arfaethedig er trafodaeth

3.1 Mae angen torri gwair ar ymylon ffyrdd er diogelwch defnyddwyr (gan gynnwys cerddwyr) ac er mwyn y rhywogaethau sy’n cael eu cynnal ganddynt. Mae diogelwch defnyddwyr y ffordd yn holl bwysig; felly mae angen cynnal lleiniau gweledydd a throedffyrdd mewn lleoliadau allweddol.

3.2 Ar ymylon mewn lleoliadau eraill, dylid caniatáu i blanhigion flodeuo a hadu cyn torri ac mae angen cynnal cynefin i anifeiliaid. I gyrraedd y nodau hyn, mae angen rhoi sylw gofalus i amseru gwaith torri gwair yn ogystal â’r uchder torri.

3.3 Ledled y Sir, bydd glaswellt yn cael ei dorri ddwywaith y flwyddyn, yn seiliedig ar amser, ar ymylon sydd ar y rhwydwaith prif ffyrdd a’r rhwydwaith mân ffyrdd. Mae prif ffyrdd yn cael eu diffinio fel ffyrdd sydd wedi’u dosbarthu’n ffyrdd A neu B. Mae ffyrdd mân yn cael eu diffinio fel ffyrdd sydd heb eu dosbarthu’n ffyrdd A neu B.

3.4 Yn gyffredinol, bydd y prif ffyrdd yn cael eu torri ar ôl 01 Gorffennaf gan amcangyfrif y bydd y gwaith wedi’i orffen erbyn diwedd Gorffennaf.

3.5 Bydd ffyrdd mân yn cael eu torri ar ôl 01 Awst gan amcangyfrif y bydd y gwaith wedi’i orffen erbyn diwedd Medi. Ni ddylai gwair sy’n cael ei dorri gan dractorau a thorwyr fod yn llai na 100mm o uchder ar ôl cael ei dorri. Mae modd defnyddio peiriannau eraill (strimwyr ac ati) ar rai safleoedd lle nad oes modd defnyddio tractor a thorrwr. Dan yr amgylchiadau hyn, efallai na fydd modd torri’r gwair i uchder o 100mm a gall y gwair gael ei dorri’n fyrrach. Pa bynnag beiriant a ddefnyddir, ni ddylai uchder y gwair ar ôl ei dorri datguddio nac amharu ar y pridd sydd ar y wyneb.

3.6 Ar bob ffordd, gan gynnwys ffyrdd A a B, ni ddylai’r rhan sydd wedi’i dorri fod yn fwy nag 1 metr o led o ymyl y ffordd a dylai fod o uchder o ddim llai na 100mm. Mewn rhai lleoliadau penodol, efallai y bydd angen i'r toriad fod yn fwy nag 1 metr yn ôl disgresiwn y swyddfa ardal berthnasol am resymau iechyd a diogelwch. Gallai hyn olygu y bydd rhai ffyrdd yn cael eu torri’n gynt na’r dyddiadau sydd yng nghymalau 3.4. a 3.5 uchod. Efallai y bydd angen torri’n fwy aml er mwyn cynnal lleiniau gweledydd mewn rhai lleoliadau. Unwaith eto, bydd hyn yn ôl disgresiwn y swyddfa ardal berthnasol at ddibenion iechyd a diogelwch.

3.7 Gwneir pob ymdrech i oedi torri ar hyd y rhwydwaith mân ffyrdd cyhyd ag y bo modd er mwyn i flodau hadu ac i osgoi aflonyddwch diangen i fywyd gwyllt. Gellir torri hyd gyfan wrth ochr y ffordd yn ôl disgresiwn y swyddfa ardal berthnasol i atal gordyfiant prysgwydd ac i sicrhau gweledydd ymlaen at ddibenion iechyd a diogelwch.

3.8 Byddwn yn dychwelyd yn yr Hydref gan gynnal torri llawn a hyn ar gyfer pob ffordd - mae trefn torri fel hyn yn hybu bywyd gwyllt ac yn gwella'r amgylchedd ar gyfer hybu tyfiant.

3.8 Byddwn yn gweithio tuag at bolisi o gasglu glaswellt wedi'i dorri (lle bo hynny'n bosibl) pan fydd adnoddau'n caniatáu a bydd hyn yn cael ei wneud wrth drefnu'r ail doriad ym mis Hydref.